
OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2022 No. 1215

**Rheoliadau Cyd-drefniadaeth y Marchnadoedd mewn
Cynhyrchion Amaethyddol (Diwygio) (Cymru) 2022**

RHAN 2

Diwygio deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir

Diwygio Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 543/2011

4.—(1) Mae Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 543/2011 sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer cymhwyso Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1234/2007 mewn cysylltiad â'r sectorau ffrwythau a llysiau a ffrwythau a llysiau wedi eu prosesu⁽¹⁾ wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Erthygl 3(2), hepgorer “referred to in Article 75(1)(b) of Regulation (EU) No 1308/2013”.

(3) Yn Erthygl 8, yn lle “Articles 75 and” rhodder “Article”.

(4) Yn Erthygl 10(1), hepgorer “pursuant to Article 75 of Regulation (EU) No 1308/2013”.

(5) Yn Erthygl 11(1), yn lle “Articles 75 and” rhodder “Article”.

⁽¹⁾ EUR 2011/543, a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/822. Mae offerynnau diwygio eraill, ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.